# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 8 Hydref 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(222)v2

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**3 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (15 munud)**

Gweld y Cwestiynau

**4 Cynnig i ddiddymu Rheoliadau Addysg (Sefydliadau Ewropeaidd) a Chymorth i Fyfyrwyr (Cymru) (Dirymu) 2014 (30 munud)**
**NNDM5582 Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.2:

Yn cytuno bod Rheoliadau Addysg (Sefydliadau Ewropeaidd) a Chymorth i Fyfyrwyr (Cymru) (Dirymu) 2014, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 18 Gorffennaf, yn cael eu dirymu.

**Dogfennau ategol:**

Rheoliadau Addysg (Sefydliadau Ewropeaidd) a Chymorth i Fyfyrwyr (Cymru) (Dirymu) 2014
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ynghylch yr arferion gorau o ran y gyllideb (60 munud)**
**NDM5591 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Yn cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei ymchwiliad i'r arferion gorau o ran y gyllideb, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Gorffennaf 2014.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Hydref 2014

**Dogfennau Atodol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid
Ymateb Llywodraeth Cymru

**6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch gwasanaethau orthodontig yng Nghymru (60 munud)**
**NDM5590 David Rees (Aberafan)**

Yn cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar wasanaethau orthodontig yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Gorffennaf 2014.

Nodyn: Gosodwyd ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Hydref 2014.

**Dogfennau Ategol**

[Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)
[Ymateb Llywodraeth Cymru](#)

**7 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)**
**NDM5593 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Yn cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu bod Llywodraeth Cymru, ynghyd â Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, wedi sicrhau £95 miliwn o gyllid ychwanegol dros ddwy flynedd ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion yn y gyllideb newydd.

2. Yn croesawu bod cyllid hefyd wedi cael ei ymestyn i gynnwys Premiwm Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer plant o dan 5 oed.

3. Yn cydnabod bod y cytundeb cyllidebol dwy flynedd yn helpu i fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gan ysgolion ym mlynyddoedd blaenorol y cynllun o ran sicrhau bod cyllid yn parhau.

4. Yn cydnabod pwysigrwydd y ddau gynllun o ran helpu i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a thangyflawni addysgol ac o ran cau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a chefndiroedd mwy breintiedig.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi'r toriad mewn termau real o £56 miliwn yng nghyllideb addysg y flwyddyn hon sy'n cynnwys toriadau o £5 miliwn i'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a £10.7 miliwn i'r cynllun prentisiaeth Recriwtiaid Newydd.

2. Yn nodi toriadau pellach o £26.4 miliwn i addysg yn y gyllideb ddrafft o'i chymharu â'r gyllideb atodol ar gyfer mis Mehefin 2014.

3. Yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi mynd yn groes i ysbryd cytundebau blaenorol ar gyllidebau ac yn gwrthod y syniad o dincera â'r gyllideb tra bod

diffygion sylfaenol yn parhau.

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi nad oes gwerthusiad ffurfiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gael eto.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer (30 munud)
**NDM5594 Keith Davies (Llanelli)**

Adfywio Trefol 2.0 - Creu cymunedau trefol a chanol trefi cynaliadwy

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 14 Hydref 2014